

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**  
**Dydd Mercher 9 Mehefin 11.00 – 13.00**  
**Telegynhadledd**



<b><u>Yn Bresennol</u></b>	
<b>Aelodau'r Bwrdd:</b>	
Charles Janczewski ( <b>Is-gadeirydd</b> )	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF)
Paul Orders	Prif Weithredwr, CC
Fiona Kinghorn	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro
Abigail Harris	Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro
Keith Meredith	Rheolwr Grŵp, GTADC
Alun Michael	Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
Hannah Williams	Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC)
Sheila Hendrickson-Brown	Prif Swyddog Gweithredol, C3SC
Y Cynghorydd Huw Thomas ( <b>Cadeirydd</b> )	Arweinydd, Cyngor Caerdydd
Wendy Gunney	Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru
Jo Salway	Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru
Andy Robinson	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sarah McGill	Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC
<b>Ymddiheuriadau:</b>	
Len Richards	Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro
Gareth O'Shea	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC
Huw Jakeway	Prif Swyddog Tân, GTADC
Michael Evans	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gareth Newell	Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC
Mark Brace	Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddau
<b>Hefyd yn bresennol:</b>	
Dylan Owen	Rheolwr Gweithredol, Polisi a Gwella, CC
Siân Sanders	Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac Ymgysylltu
Graham Robb	Cadeirydd, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd
Sarah Merry	Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, CC
Mel Godfrey	Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, CC
Mike Tate	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Addysg a Dysgu Gydol Oes, CC
Susanne Scarlett	Rheolwr Gweithredol, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Adnoddau a Gwasanaethau Perfformiad, CC
Lee Patterson	Cydlynnydd Rhaglen Dinas sy'n Dda i Blant, CC

Anne Wei Nathan Swain Clive Bailey	Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC
--	--

Rhif	Eitem Agenda	
1 / 2	<p><b>Croeso a Chyflwyniadau</b> Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2021 a nododd y Cadeirydd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau neu wrthi'n mynd rhagddo.</p>	
3.	<p><b>Gwirfoddoli yn ystod yr Adferiad wedi Covid</b></p> <p>Crynhodd Sheila Hendrickson-Brown argymhellion ar gyfer trosglwyddo lefelau gwirfoddoli a gweithredu cymunedol mewn ymateb i'r pandemig Covid-19 i sylfaen gynaliadwy, hirdymor.</p> <p>Tynnodd y Comisiynydd Alun Michael sylw at waith gwirfoddolwyr wrth agor y Llysoedd a gwaith Cwnstabiliaid Arbennig sy'n cefnogi timau cymdogaeth. Y Comisiynydd a Sheila i gael sgwrs ynglŷn â chysylltu gwirfoddoli'r Heddlu â gwaith C3SC.</p> <p>Cytunodd Fiona Kinghorn i fwydo canfyddiadau adroddiad Adfer Gwirfoddoli Covid-19 i'r Aseiad Anghenion y Boblogaeth.</p> <p>Awgrymodd Paul Orders gysylltu'r gwaith hwn â'r ymateb Argyfwng Sifil a Rheoli Argyfyngau ac y gallai'r BGC ddymuno bwrw ymlaen â hyn. Gavin Macho i hwyluso hyn.</p> <p><b>Cam Gweithredu:</b> Sheila Hendrickson Brown a Gavin Macho i drafod cysylltu gallu gwirfoddolwyr â Rheoli Argyfyngau</p> <p>Sheila Hendrickson Brown i ddatblygu cynigion i weithredu'r argymhellion yn Adroddiad Adfer Gwirfoddoli Covid-19 i agenda arfaethedig ar gyfer y BGC</p>	<p>Y Comisiynydd/Sheila Hendrickson-Brown</p> <p>Fiona Kinghorn</p> <p>Sheila Hendrickson- Brown/ Gavin Macho</p> <p>Sheila Hendrickson- Brown</p>
4	<p><b>Strategaeth Datblygu Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid</b></p> <p>Rhoddodd Graham Robb y wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn y Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid – "Ein Dyfodol Ni i Gyd" 2020-2022. Pwysleiswyd pwysigrwydd cyfranogiad partneriaid wrth greu cysylltiadau, gan roi mwy o broffil i'r gwaith hwn.</p> <p>Bydd partneriaid yn rhan o ddatblygu'r diweddariad cynnydd ar gyfer yr arolygiad HMIP nesaf a ddisgwylir rhwng mis Hydref a mis Mawrth.</p> <p>Amlygodd Sheila Hendrickson-Brown y budd o integreiddio gwasanaethau'r gymuned a'r trydydd sector gyda'r gwaith hwn. Graham Robb i gysylltu yn dilyn y cyfarfod.</p>	<p>Sheila Hendrickson- Brown / Graham Robb</p>

Rhif	Eitem Agenda	
	Cadarnhawyd, y tu hwnt i'r strategaeth 2 flynedd hon, y bydd strategaeth bellach yn cael ei datblygu.	
5.	<p><b>Adfer ac Adnewyddu - Adferiad sy'n Dda i Blant</b></p> <p>Cyflwynodd y Cyngorydd Sarah Merry, Mel Godfrey a Mike Tate y dull ar gyfer darparu Adferiad sy'n Dda i Blant yn dilyn y pandemig Covid-19. Bydd hyn yn cyfuno ymatebion cyffredinol ac wedi'u targedu yn y tymor byr a chanolig i'r tymor hir.</p> <p>Gofynnwyd i'r BGC:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• barhau i gefnogi a hyrwyddo ein Gweledigaeth a Nodau Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant</li> <li>• helpu i adnewyddu'r Strategaeth sy'n Dda i Blant yn ystod Hydref 2021</li> <li>• cefnogi cyflawni'r ymrwymadau i weithredu fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Adferiad sy'n Dda i Blant</li> <li>• rhannu gwybodaeth a fydd yn helpu i reoli unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg i blant a phobl ifanc wrth i gyfyngiadau COVID godi</li> <li>• helpu i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol i blant a phobl ifanc ar ôl y pandemig</li> </ul> <p>Cytunwyd y byddai trafodaethau gyda gwasanaethau ieuenctid a chynrychiolwyr yr heddlu yn hanfodol. Cytunodd y Comisiynydd, y Cyngorydd Huw Thomas a Lee Patterson i ddatblygu'r trafodaethau hyn</p> <p>Abi Harris yn cytuno i hwyluso cysylltiad BIPCaF â'r gwaith hwn.</p> <p>Amlygodd y Comisiynydd bwysigrwydd fframio ceisiadau gan bartneriaid BGC i sicrhau eu cymorth. Codwyd mater llywodraethu, er mwyn ymgorffori dull partneriaeth yn hytrach na gadael unigolion â chyfrifoldeb.</p> <p>Cytunodd Paul Orders i hwyluso trafodaeth ehangach ar drefniadau partneriaeth a llywodraethu ar draws ffrydiau gwaith y BGC yn y cyfarfod BGC nesaf.</p>	<p>Y Comisiynydd / Huw Thomas / Lee Patterson</p> <p>Abi Harris</p> <p>Paul Orders / Ysgrifenyddiaeth</p>
6.	<p><b>Diogelwch Cymunedol</b></p> <p>Rhoddodd Sian Sanders y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bwrdd Diogelwch Cymunedol a chrynodeb o ADD 7 sydd wedi'i gyflwyno i Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref.</p>	
7.	<p><b>Unrhyw Fusnes Arall ac Edrych tua'r Dyfodol</b></p> <p><b>Camau Gweithredu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llythyr i'w gyflwyno i Len Richards, yn diolch iddo am ei wasanaeth i'r BGC ac i Gaerdydd a'r Fro.</li> </ul>	Ysgrifenyddiaeth

Rhif	Eitem Agenda	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfoeth Cenedlaethol Cymru i gysylltu â Dylan Owen ynghylch yr Aseiad Lles a gwaith Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (AaSAN).</li> </ul>	Andrew Robinson/Cyfoeth Cenedlaethol Cymru
	<p><b>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• BGC Caerdydd 7 Gorffennaf 2021</li> <li>• BGC Caerdydd 26 Gorffennaf 2021</li> </ul>	